## Cwestiynau Mynych ynghylch Playhouse…

Mae Playhouse yn bartneriaeth rhwng Theatre Royal Plymouth, York Theatre Royal, Bristol Old Vic a Theatr Iolo. Mae Theatr Iolo yn rhedeg y prosiect yng Nghymru ac yn cyflwyno'r prosiect mewn theatr Gymraeg.

Bob blwyddyn, mae'r bartneriaeth yn comisiynu dramâu newydd ac yn ailgomisiynu dramâu o ôl-gatalog Playhouse, wedi'u llunio i ymgysylltu â phlant yn berfformwyr a'u hathrawon yn gyfarwyddwyr. Ym mhob un o'r ardaloedd sy'n cymryd rhan, mae ysgolion lleol yn dod ynghyd i berfformio pob drama'n rhan o Ŵyl Playhouse.

**Be ydi'r dyddiadau allweddol mae gofyn i chi fod yn gwybod amdanyn nhw a chadw lle?**

- Gweithdy Awduron Digidol: Mae'r prosiect yn dechrau gyda gweithdy digidol hanner diwrnod i athrawon ddechrau mis Mawrth.
- Diwrnod Gweithdy Athrawon: Bydd yr athrawon o Gymru'n cymryd rhan mewn gweithdy yn y cnawd yng Nglan yr Afon, Casnewydd ym mis Ebrill ar ôl gwyliau'r Pasg.
- Gŵyl Playhouse: Bydd y perfformiadau terfynol byw gyda'r holl blant ac ysgolion sydd ynghlwm ar fynd yng Nglan yr Afon, Casnewydd yn wythnos gyntaf Gorffennaf

**Ar gyfer pwy mae Playhouse?**

- Athrawon ysgolion cynradd sydd â diddordeb mewn dysgu rhagor ynghylch sut i gyfarwyddo perfformiadau gyda chast ifanc
- Plant 9-11 oed (Blwyddyn 5 & 6) fydd yn cael y cyfle i berfformio drama newydd mewn theatr weithiol
- Profiad i'r dosbarth cyfan! Ysgrifennir y ddrama ar gyfer cast o 20-35 fel y gall gael ei pherfformio gan bawb sydd yn y dosbarth

**Sut beth fydd y dramâu?**

- 20-25 munud o ran hyd
- Digon o gymeriadau ar gyfer dosbarth cyfan – ar gyfartaledd rhwng 20-35
- Arhwilio themâu sy'n berthnasol i fywydau'r perfformwyr, a sy'n herio sut maen nhw'n gweld y byd
- Cynnwys amrywiaeth o dechnegau theatr a allai gynnwys gwaith corws, theatr aml-gyfrwng a theatr gorfforol

**Pam ddylwn i fod yn rhan o Playhouse?**

- Mae Playhouse yn cynnig cyfle unigryw i athrawon ddysgu sgiliau newydd
- Fe gewch fynediad at sgriptiau newydd sbon, yn y Gymraeg a'r Saesneg, sydd wedi'u ysgrifennu'n benodol er mwyn cael eu perfformio gan blant 9-11 oed, ac a fyddant yn cael eu première fel rhan o Playhouse
- Mae'r prosiect wedi'i lunio i roi sgript cyflawn i athrawon, fel y gallwch chi dreulio mwy o amser yn canolbwyntio ar gyfarwyddo'r darn
- Bydd Theatr Iolo yn gofalu am drefnu'r lleoliad perfformio, a bydd Theatr Iolo yn brif fan cyswllt ar gyfer y prosiect hefyd, fel y gallwch chithau ganolbwyntio ar y ddrama ei hun
- Mae'r prosiect yn cynnig cyfle perfformio unigryw ar ddiwedd y tymor i'ch myfyrwyr gael ei rannu â'u ffrindiau a'u teuluoedd

**Beth yw'r gost?**

£350 yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gweithdy Awduron Digidol ar gyfer yr athro arweiniol gyda'r lleoliadau a'r ysgolion sy'n cymryd rhan o bob rhan o'r DU a'r dramodwyr.
- Diwrnod Gweithdy Athrawon i'r athro arweiniol, fydd yn cymryd rhan mewn gweithdy diwrnod cyfan yn y cnawd, gydag ymarferwr ac athrawon eraill o Gymru i chwilio proses cyfarwyddo drama ac i gynnig syniadau i fynd â nhw'n ôl i'r stafell ddosbarth. Cynigir cinio canol dydd a lluniaeth.
- Ymweliad hanner diwrnod o leiaf gan aelod o dîm Theatr Iolo yn dilyn y gweithdy pan gewch chi gynnig awgrymiadau a chyngor neilltuol, yn dibynnu ar eich dewis ddrama benodol.
- Bydd tîm Theatr Iolo wrth law i chi bob amser tra byddwch chi'n ymarfer y cynhyrchiad, i roi cymorth a chyngor.
- Taith gefn llwyfan yng Nglan yr Afon i'ch dosbarth cyfan.
- Gofod perfformio yng Nglan yr Afon er mwyn perfformio i ffrindiau a theulu*

  **Os na fydd perfformiad byw i ffrindiau a'r teulu'n bosib oherwydd COVID-19, fe wnawn ein gorau i recordio perfformiadau'r ysgolion a chynnig sgriniad digidol.*

**Faint o amser / adnoddau mae gofyn i mi ymrwymo iddyn nhw?**

- Bydd angen i'r athro arweiniol ymrwymo i ddyddiadau'r Gweithdy Awduron Digidol, y Diwrnod Gweithdy Athrawon a dyddiadau Gŵyl y Playhouse.
- Bydd angen neilltuo amser digonol i ymarfer y chwarae gyda'r disgyblion mewn ysgolion. Bydd gofyn neilltuo digon o amser i ymarfer y ddrama gyda'r myfyrwyr yn yr ysgol.

**Sut y gallaf gymryd rhan?**

Os carech fod yn rhan o Playhouse ebostiwch hello@theatriolo.com neu ffoniwch ni ar 029 2061 3782.